

DATGANIAD CYFRIFON

2009-10



CYNGOR SIR Y FFLINT

CYNNWYS

Tudalen

Cyngor Sir y Fflint

Rhagair Esboniadol

1-3

Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

4-9

Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datganiad Cyfrifon

10

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

11-18

Datganiadau Ariannol Craidd Endid Sengl -

Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

19

Datganiad o Symudiadau ar Falans cronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

20

Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

21

Mantolen ar 31 Mawrth 2010

22-23

Datganiad Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

24

Nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol craidd

25-57

Datganiadau Ariannol Craidd Endid Sengl Atodol -

Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

58

Datganiad o'r Symudiadau ym Malans y Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

59

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrif Refeniw Tai am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

60-61

Datganiadau Grŵp -

Cyfrifon Grŵp

62-70

Cronfa Bensiynau Clwyd

Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

71-81

Tudalen 1

RHAGAIR ESBONIADOL

Mae Datganiad Cyfrifon 2009/10 yn rhoi manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar dudalennau 19 i 70 yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer 2009 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol – Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (y SORP) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA). Mae'r datganiadau'n cynnwys:-

- Y datganiadau ariannol craidd sy'n cynnwys –
 - **y cyfrif incwm a gwariant** – sy'n rhoi manylion cost net y gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor, ynghyd â manylion sut y darperir y gwasanaethau trwy'r dreth Gyngor a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.
 - **datganiad o symudiadau ym malans cronfa'r Cyngor** – sy'n cysoni gwarged neu ddiffygion yn y cyfrif incwm a gwariant a symudiadau ym malans cronfa'r Cyngor gan gymryd i ystyriaeth y symiau hynny sy'n ofynnol trwy statud.
 - **datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion**– sy'n nodi'r enillion a'r colledion nad ydynt yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant, ond sy'n cael eu cynnwys yn y symudiad yng ngwerth net y Cyngor.
 - **mantolen** - sy'n rhoi manylion sefyllfa ariannol y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2010.
 - **datganiad llif arian** – sy'n cofnodi llif arian i mewn ac allan sy'n codi o drafodion trydydd parti.
- Y datganiadau ariannol ategol sy'n cynnwys –
 - **y cyfrif refeniw tai a'r datganiad o symudiadau ym malans y cyfrif refeniw tai** – sy'n rhoi manylion cost net swyddogaeth landlord y Cyngor fel darparydd tai'r Cyngor.
- Y cyfrifon grŵp sy'n cynnwys –
 - cyfrif incwm a gwariant y **grŵp**, cysoni gwarged neu ddiffyg yn y cyfrif incwm a gwariant endid sengl â gwarged neu ddiffyg yng nghyfrif incwm a gwariant y grŵp, datganiad grŵp o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, mantolen y grŵp a datganiad llif arian y grŵp – sy'n crynhoi gwybodaeth ar gyfer y Cyngor a'i is-gwmni AD Waste Limited.

Cyflwynir cyfrifon y gronfa bensiynau ar dudalennau 71 i 80, yn unol â'r gofynion.

Y GYLLIDEB REFENIW A'R SEFYLLFA ARIANNOL YN GYFFREDINOL

Gosodwyd cyllideb 2009/10 yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd cyffredinol a chynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor, ac ar adeg pan oedd incwm o wasanaethau ac elw ar fuddsoddiadau yn gostwng. Wrth baratoi'r gyllideb, fel y blynyddoedd cynt, ceisiwyd parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi ysgolion; hefyd byddai cynorthwyo pobl ifanc ag anableddau a oedd yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion, a darparu gofal i bobl hŷn y sir yn dal i gael blaenoriaeth. Dechreuodd y Cyngor ymgymryd â rhaglen uchelgeisiol i newid y sefydliad gyda'r nod o sicrhau gwell perfformiad ac effeithlonrwydd a llai o orbenion. Llwyddwyd i arbed bron i £3,000k yng nghyllideb 2009/10, ac roedd cynllun gweithredu ar waith hefyd i arbed £1,000k arall yn ystod y flwyddyn. Er bod y rhaglen newid yn ceisio canfod pob cyfle posibl i arbed arian, byddai'n parhau i gefnogi twf a darparu gwasanaethau ledled y Sir.

Cyfanswm y gwariant net ar gyfer 2009/10 oedd £234,804k yn erbyn cyllideb o £235,057k.

Tudalen 2

RHAGAIR ESBONIADOL parhad

Y GYLLIDEB REFENIW A'R SEFYLLFA ARIANNOL YN GYFFREDINOL (parhad)

	Cyllideb 2009/10	Gwirioneddol 2009/10	Amrywiant	Gwirioneddol 2008/09
	£000	£000	£000	£000
Gwariant net ar wasanaethau	221,566	221,162	(404)	216,289
Cyfrif benthyciadau a buddsoddiadau canolog	13,491	13,642	151	11,320
Cyfanswm gwariant net	<u>235,057</u>	<u>234,804</u>	<u>(253)</u>	<u>227,609</u>
Cyllidwyd gan				
Y Dreth Gyngor (net o wariant praeseptau cynghorau cymuned)	51,326	51,318	8	49,690
Grantiau cyffredinol	143,294	143,293	1	139,074
Aiddosbarthu ardrethi annomestig	40,437	40,437	0	39,371
Cyfanswm adnoddau	<u>235,057</u>	<u>235,048</u>	<u>9</u>	<u>228,135</u>
Amrywiad net (tanwariant)		<u>(244)</u>	<u>(244)</u>	<u>(526)</u>

Gostyngodd y tanwariant net o £253k i £244k drwy leihau'r Dreth Gyngor (£8k) a gostwng grantiau cyffredinol (£1k). Mae'r £244k, ynghyd â symiau eraill y cytunwyd i'w trosglwyddo, sef £579k (credyd net), wedi arwain at gyfanswm refeniw wrth gefn o £27,246k yng nghronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys elfen o falans cronfa'r Cyngor gwerth £25,796k.

	Tanwariant			2009 £000
	2010 £000	Net £000	Arall £000	
Balansau heb eu clustnodi	6,277	244	(1,224)	7,257
Balansau wedi'u clustnodi	19,519	0	1,698	17,821
Balans cronfa'r Cyngor	<u>25,796</u>	<u>244</u>	<u>474</u>	<u>25,078</u>
Ysgolion dan reolaeth leol (heb fod ar gael at ddibenion cyffredinol)	1,450	0	(1,053)	2,503
Cyfanswm refeniw wrth gefn cronfa'r Cyngor	<u>27,246</u>	<u>244</u>	<u>(579)</u>	<u>27,581</u>

Mae'r symudiad ym malans cronfa'r Cyngor o £25,078k i £25,796k (£718k), yn cyd-fynd â chyfanswm gwarged incwm a gwariant o £210,713k ar gyfer y flwyddyn (fel y gwelir ar dudalen 19), a chyfanswm y datganiad o symudiadau o £211,431k (ar dudalen 20).

ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU

Gwariwyd cryn dipyn yn ystod y flwyddyn ar greu cyfleuster cyfarpar cymunedol integredig ym Mhenarlâg (£1,077k) o dan drefniant cronfa gyfun gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cynllun a arianwyd yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd gwaith mawr arall yn cynnwys cwblhau dwy ysgol arbennig newydd yn y Fflint – Ysgol Iau Gwynedd (£562k), ac Ysgol Uwchradd y Fflint (£630k); Grant Gwella Adeiladau Ysgolion penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru dalodd am ran sylweddol o'r gwaith ar y ddwy ysgol (ers i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2007/08).

Tudalen 3

RHAGAIR ESBONIADOL parhad

PENSIYNAU

Mae'r datgeliadau'n cydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS 17) ac yn rhoi cyfrif llawn o'r rhwymedigaeth pensiwn. Y rhwymedigaeth a gofnodir yn y fantolen (£248.93m) yw cyfanswm y diffygion a ragwelir yn ystod oes y gronfa. Nid yw FRS17 yn cael unrhyw effaith ar lefelau Treth Cyngor na chyllid tai.

CYFLEUSTERAU BENTHYCA

Ni wnaed unrhyw fenthyciadau hirdymor newydd yn ystod 2009/10, gyda'r prifswm dyledus yn aros fel £173.613m; mae'r Cyngor yn dal i ddefnyddio arian wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf yn lle benthyca arian o'r newydd.

FFYNONELLAU CYLLID CYFALAF

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn cymeradwyo rhaglen o waith cyfalaf, sy'n darparu ar gyfer buddsoddi mewn asedau megis tir, adeiladau a gwella ffyrdd. Cyllidir y rhaglen trwy fenthyca â chymorth, benthyca heb gefnogaeth (darbodus), derbyniadau cyfalaf, grantiau a chyfraniadau cyfalaf, arian wrth gefn a chyllid o'r cyfrif refeniw.

	2010	2009
	£000	£000
Benthyciadau a gefnogir	7,759	7,827
Benthyciadau nas cefnogir (darbodus)	409	312
Derbyniadau cyfalaf	213	4,141
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	21,651	25,549
Cyfalaf wrth gefn/gwariant cyfalaf a gyllidir o'r cyfrif refeniw	1,035	3,029
Cyfanswm cyllido	31,067	40,858

AILBRISIO ASEDAU

Rhaid ailbrasio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd - ail-brisiwyd 60% o'r holl asedau yn ystod 2009/10 er mwyn ateb y gofyniad pum mlynedd. Mae ailbrisiad 2009/10 wedi arwain at ostyngiad net sylweddol yng ngwerth yr asedau diriaethol sefydlog a gofnodwyd yn y fantolen (o £1,035k i £914k.)

NEWIDIADAU YM MHOLISIAU CYFRIFYDDU

Mae SORP 2009 wedi awgrymu rhai newidiadau bach ym mholisiau cyfrifyddu'r Cyngor o ran cronladau llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, ac eglurhad o ran pryd yr amherir ar werth asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu.

Tudalen 4

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

CYFFREDINOL

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2009 – Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (y SORP) a gyhoeddwyd gan CIPFA, a ategwyd gan nodiadau canllaw ar gymhwyso safonau cyfrifeg.

Mae SORP 2009 wedi arwain at rai newidiadau bach ym mholisiau cyfrifyddu'r Cyngor, o ran cronladau llog sy'n daladwy ac yn dderbyniadwy, ac eglurhad o ran pryd yr amherir ar werth asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu. Ni fu unrhyw newid yn y technegau amcangyfrif a ddefnyddiwyd ac nid oes unrhyw daliadau neu gredydau sylweddol neu anarferol wedi'u cynnwys yn y cyfrifon.

DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn darparu'n briodol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau neu golledion sy'n debygol neu'n sicr o ddod i'w ran, oni bai bod ansicrwydd ynghylch swm neu amseriad unrhyw daliad y mae ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Ystyrir symiau a neilltuir at ddibenion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o ddarpariaethau fel cronfeydd wrth gefn. Maent naill ai'n arian y bwriadwyd ei osod o'r neilltu i dalu am wariant annisgwyl yn y tymor byr, adnoddau i helpu i reoli llif arian neu adnoddau sydd wedi cronni ac na chawsant eu gwario na'u clustnodi ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu. Mae trosglwyddiadau iddynt ac ohonynt yn cael eu dangos fel neilltuadau yn y datganiad symudiad ar falans cronfa'r Cyngor.

ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Mae gwariant yn ymwneud â chaffael, creu neu wella asedau sefydlog diriaethol yn cael ei gyfalafu, ar yr amod fod budd yn deillio o'r ased i'r awdurdod ac i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu am gyfnod o fwy na blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol pennwyd lefel gwariant de minimis o £20,000. Nid fydd gofynion cyfrifyddu cyfalaf yn gymwys mewn perthynas â symiau is na hyn. Caiff gwariant am wneud gwaith trwsio a chynnal a chadw arferol yng nghyswllt asedau sefydlog ei godi'n uniongyrchol ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth.

Caiff asedau sefydlog eu prisio ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â'r Datganiadau Arferion Prisio Asedau a'r Nodiadau Canllaw a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (RICS). Cânt eu dosbarthu yn wahanol grwpiau yn ôl gofynion Cod Ymarfer 2008 ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol.

Cafodd eiddo gweithredol heb fod yn arbenigol eu prisio ar sail gwerth y farchnad am eu defnydd presennol. Mewn achosion lle nad oedd gwerth y farchnad am ased penodol, defnyddiwyd cost adnewyddu wedi dibrisiant. Caiff asedau sefydlog gweithredol eraill (seilwaith ac asedau cymunedol) eu prisio ar sail cost hanesyddol, a chafodd y mathau hynny o eiddo sydd ym marn yr Awdurdod yn anweithredol eu prisio ar sail gwerth y farchnad – defnydd presennol/gwerth y farchnad.

Rhaid ailbrizio holl asedau'r Awdurdod bob pum mlynedd. Y tro diwethaf i hyn gael ei wneud yn llawn oedd ar 1 Ebrill 2004 ond, o 2007/08 ymlaen, caiff cyfran o gyfanswm y portffolio asedau ei hailbrizio bob blwyddyn (20% yn 2007/08 a 2008/09, gyda balans o 60% yn 2009/10), er y caiff newidiadau arwyddocaol i brisiadau eu haddasu yn y cyfnod interim, fel y byddant yn digwydd. Os yw prisiadau'n codi, bydd y gronfa wrth gefn ar gyfer ailbrizio'n cael ei gredydu er mwyn cydnabod elw heb ei droi'n arian. Mae'r gronfa ailbrizio wrth gefn yn cynnwys yr elw a wnaed wrth ailbrizio ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad y cafodd ei roi ar waith yn ffurfiol. Mae unrhyw elw a wnaed cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cydgrynhoi yn y cyfrif addasu cyfalaf. Caiff gwahanol ddsbarthiadau o asedau ar y fantolen grŵp eu mesur ar seiliau gwahanol (yn unol â'r fantolen).

Tudalen 5

DATGANIAD O BOLISIŶAU CYFRIFYDDU

parhad

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gall asedau anniriaethol, megis gwariant ar ddatblygu, ewyllys da neu drwyddedau meddalwedd a brynwyd, fodloni'r diffiniad o asedau os mai'r Cyngor fydd yn rheoli'r ffordd y caiff y manteision economaidd eu defnyddio yn y dyfodol, naill ai drwy eu cadw neu drwy warchodaeth gyfreithiol. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl eu caffael/datblygu. Yr oesau defnyddiol mwyaf cyffredin at ddibenion amorteiddio yw 7 mlynedd i wario ar ddatblygu a 5 mlynedd ar gyfer trwyddedau meddalwedd.

DIBRISIANT

Darperir ar gyfer dibrisiant llinell syth ar bob ased sefydlog diriaethol gydag oes ddefnyddiol gyfyngedig (ac eithrio tir nad yw'n dibrisio ac eiddo buddsoddi anweithredol), a sicrheir darpariaeth o'r flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl caffaeliad/prisiad. Seilir y ffigur ar brisiadau agoriadol mantolen net 2009/10 (rhestr brisio llai dibrisiad cronnus), gan ragdybio nad oes dim gwerthoedd gweddilliol i bob ased sefydlog. Os yw'r ased yn cynnwys dwy elfen sylweddol neu ragor gydag oes economaidd ddefnyddiol sy'n amrywio'n sylweddol, cyfrifwyd pob elfen ar wahân. Dyma sy'n cael ei ystyried yn oes ddefnyddiol gyffredin at ddibenion dibrisiant :-

Blynyddoedd

Eiddo a garejys y Cyngor	40
Tir ac adeiladau eraill	50
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar	5
Asedau seilwaith	40
Asedau cymunedol	20

DERBYNIADAU CYFALAF

Mae derbyniadau cyfalaf yn codi wrth werthu asedau sefydlog ac ad-dalu blaensymiau, a rhoddir cyfrif cronnus ohonynt; caiff symiau is na £10,000 o unrhyw werthiant eu trin fel incwm refeniw, yn unol â rheoliadau cyfalaf. Mae'r gofyniad i neilltuo 75% o dderbyniadau a geir wrth werthu tai cyngor i ad-dalu dyledion wedi'i ddileu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ond mae'r cyngor yn parhau i neilltuo'r swm yn unol â'r rhagdybiaeth yn rheolau cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Mae balans y derbyniadau nad ydynt wedi'u neilltuo yn y modd hwn, ac nad ydynt wedi'u defnyddio at ddibenion cyllido cyfalaf, wedi'i gynnwys yn y fantolen fel derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio. Caniateir defnyddio'r holl dderbyniadau cyfalaf nad ydynt yn ymwneud â thai.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Mae gwariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellid ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol, ond nad yw'n arwain at greu asedau sefydlog wedi'i nodi fel gwariant yng nghyfrif y gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Os yw'r Cyngor wedi penderfynu talu costau'r gwariant hwn drwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf cyfredol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf yn gwyrddroi'r symiau a nodwyd yn y datganiad o symudiadau ym malans cronfa'r Cyngor, fel nad yw'n effeithio ar lefel y Dreth Gyngor.

AMHARIAD

Caiff gwerth pob categori o asedau ac asedau unigol sylweddol, nad ydynt yn cael eu dibrisio, eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i weld a oes tystiolaeth eu bod wedi gostwng yn eu gwerth. Os nodir bod eu gwerth wedi gostwng yn sgil y broses adolygu neu yn sgil ymarfer

Tudalen 6

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

parhad

AMHARIAD (parhad)

gwerthuso, dangosir hyn yn y cyfrifon naill ai yn y cyfrif refeniw perthnasol lle mae'r golled i'w briodoli i ostyngiad amlwg mewn budd economaidd neu, fel arall, caiff ei ddileu yn erbyn unrhyw elw dibrisiant sydd i'w briodoli i'r ased perthnasol yn y gronfa ailbriso, gydag unrhyw swm dros ben yn cael ei gynnwys yng nghyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol.

Os cydnabyddir amhariad yn y cyfrif incwm a gwariant, ond bod elw ailbriso wedi cronni yn y gronfa ailbriso wrth gefn ar gyfer yr ased dan sylw, caiff swm hyd at werth y golled ei drosglwyddo o'r gronfa ailbriso wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

GRANTIAU

Mae grantiau a dderbynnir ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrif fel cronniad. Os yw ased yn cael ei ariannu'n rhannol neu'n llawn â grant neu gyfraniad arall gan y llywodraeth, mae swm y grant yn cael ei gredydu i gyfrif grantiau gohiriedig y llywodraeth a chaiff ei ryddhau ar yr un gyfradd ac yn ôl yr un gyfran â'r dibrisiant yr asedau yng nghyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol. Mae grantiau ar gyfer gwariant refeniw cyffredinol (fel y grant cynnal refeniw) yn cael eu credydu ar waelod y cyfrif incwm a gwariant (gweler tudalen 19).

TALIADAU LLOG

Mae llog allanol taladwy'n cael ei gynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant ynghyd ag amorteiddiad yr enillion a'r colledion a wnaed wrth ail-brynu benthyciad a ddygwyd ymlaen yn y fantolen neu wrth dalu'r benthyciadau hynny'n ôl yn gynnar.

AD-DALU DYLEDION

Caiff dyledion eu had-dalu pan ddeuant yn ddyledus. Mae symiau a osodir o'r neilltu o refeniw i ad-dalu benthyciadau allanol neu i gyllido gwariant cyfalaf yn cael eu dangos yn y datganiad o symudiadau ar falans cyfrif y Cyngor; codir isafswm darpariaeth refeniw sy'n cyfateb i 2% o'r swm sy'n ddyledus ar y cyfrif refeniw tai a 4% ar gyfrif y Cyngor. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu'n ddarbodus i ad-dalu'i ddyledion (rheoliad 22).

PRYDLESI

Mae rhenti prydlesi gweithredol yn ymddangos ar gyfrifon refeniw fel cronniad. Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau a gafwyd dan brydlesi cyllid ar hyn o bryd.

RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost amorteiddio. Caiff y taliadau blynyddol ar y cyfrif incwm a gwariant ar gyfer llog taladwy eu seilio ar swm y rhwymedigaeth a gaiff ei ddwyn ymlaen, wedi'i luosi â chyfradd llog yr offeryn. Golyga hyn mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r cyfanswm sy'n daladwy (â llog cronni) a'r llog a nodir ar y cyfrif incwm a gwariant yw'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Tudalen 7

DATGANIAD O BOLISIŶAU CYFRIFYDDU

parhad

ASEDAU ARIANNOL

Mae dau fath o asedau ariannol:

- benthyciadau a derbyniadau – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu na chânt eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad a/neu heb daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu.

Benthyciadau a Derbyniadau:

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg a'u dwyn ymlaen yn ôl eu cost amorteiddio. Caiff credydau blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer llog derbyniadwy eu seilio ar swm yr ased a gaiff ei ddwyn ymlaen wedi'i luosi â chyfradd llog yr offeryn. Golyga hyn mai'r swm a nodir ar y fantolen yw'r cyfanswm sy'n dderbyniadwy (â llog cronrus) a'r llog a gredydir i'r cyfrif incwm a gwariant yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau sydd ar gael i'w gwerthu:

Caiff asedau sydd ar gael i'w gwerthu eu mesur i ddechrau, a'u dwyn ymlaen, yn ôl gwerth teg. Os oes taliadau sefydlog ar gyfer yr ased, caiff credydau blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y llog derbyniadwy eu seilio ar gost amorteiddio'r ased wedi'i luosi â chyfradd llog yr offeryn. Os nad oes taliadau sefydlog, caiff incwm (e.e. buddrannau) ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant pan fydd yn dod yn dderbyniadwy i'r Cyngor.

Caiff asedau eu cynnal ar y fantolen yn ôl gwerth teg. Seilir gwerthoedd ar yr egwyddorion a ganlyn:

- offerynnau sydd â phris a ddyfynnir ar y farchnad - pris ar y farchnad
- cyfrandaliadau ecwiti heb brisiau a ddyfynnir ar y farchnad – arfarniad annibynnol o brisiadau cwmnïau.

Caiff newidiadau mewn gwerth teg eu cydbwyso gan gofnod yn y gronfa wrth gefn ar gyfer asedau sydd ar gael i'w gwerthu. Yr eithriad yw sefyllfa lle cafwyd colledion oherwydd amhariad - caiff y rhain eu debydu i'r cyfrif refeniw a gwariant, ynghyd ag unrhyw elw/golled net ar gyfer yr ased a gronnwyd yn y gronfa wrth gefn.

Os oes amhariad ar yr asedau oherwydd bod digwyddiad yn y gorffennol yn ei gwneud hi'n debygol na chaiff taliadau sy'n ddyledus o dan y contract eu gwneud (taliadau sefydlog neu ganfyddadwy) neu os yw gwerth teg yn disgyn yn is na'r gost, bydd gwerth yr ased yn gostwng a dangosir hyn yn y cyfrif incwm a gwariant.

DYLEDWYR A CHREDYDWYR

Paratoir cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod fel croniadau. Cynhwysir symiau yn y cyfrifon terfynol i dalu am incwm neu wariant i'w briodoli i flwyddyn y cyfrif am nwyddau a dderbyniwyd neu waith a wnaed, ond lle na dderbyniwyd/gwnaed y taliad erbyn 31 Mawrth 2010.

STOCIAU

Prisir stociau ar y gost neu'r gwerth sylweddoladwy net is.

Tudalen 8

DATGANIAD O BOLISIÄU CYFRIFYDDU

parhad

GORBENION

Codwyd costau gwasanaethau cymorth ac adeiladau gweinyddol a ddarperir yn ganolog i'r gwasanaethau, yn ôl y Cod Ymarfer Gwerth Gorau mewn Cyfrifo (BVACOP). Dyrennir costau'r craidd corfforaethol a democrataidd ac unrhyw gostau nas dosbarthwyd i benawdau gwrthrychau gwahanol ac nid ydynt yn cael eu dosrannu i unrhyw wasanaeth arall.

PENSIYNAU

Caiff gwariannau a ddyfynnwyd a gaiff eu cadw fel asedau yn y cynllun buddion diffiniedig eu prisio yn ôl pris y cynnig, yn unol â'r newid a fabwysiadwyd i FRS17, *Buddion Ymddeol*.

Mae asedau'r gronfa bensiwn yn cynnwys buddsoddiadau heb eu dyfynnu a ddygir ar eu gwerth teg. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â phrisio buddsoddiadau fel hyn, o ganlyniad i absenoldeb marchnad hylifol, gall gwerth teg y buddsoddiadau hyn fod yn wahanol i'w gwerthoedd sylweddoladwy. Gallai'r gwahaniaeth fod yn faterol berthnasol.

Mae gan y Cyngor ddau gynllun pensiwn gwahanol sy'n ateb gofynion gweithwyr mewn gwasanaethau penodol. Mae'r cynlluniau yn rhoi buddion penodol i aelodau sy'n gysylltiedig â'u cyflogau a'u gwasanaeth:

Athrawon:

Cynllun heb ei gyllido yw hwn a gweinyddir gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Mae'r costau pensiwn a godir ar y cyfrifon ar gyfradd gyfrannu a osodwyd gan yr adran hon ar sail cronfa dybiannol.

Gweithwyr Eraill:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda buddion penodol yw hwn. Yn ôl gofynion FRS 17 - *Buddion Ymddeol*, mae'r cyfrifon yn cydnabod yr ymrwymiad llawn sydd gan y Cyngor i ateb cost buddion ymddeol yn y dyfodol a fydd yn codi o flynyddoedd o wasanaeth gan weithwyr hyd at ddyddiad y fantolen, net y cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa a'r incwm buddsoddi a gynhyrchwyd ganddynt. Seilir y gyfradd ostyngol a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau ac i gyfrifo cost gyfredol y gwasanaeth ar yr elw a wneir ar fondiau corfforaethol o safon.

Mae'r swm a godir yn y cyfrifon refeniw gwasanaeth yn seiliedig ar ran o gost gyfredol y gwasanaeth (y cynnydd mewn buddion yn y dyfodol sy'n codi o hyd gwasanaeth y flwyddyn gyfredol) yn hytrach na chyfraniadau'r cyflogwr. Caiff buddion dewisol a ddyfernir adeg ymddeol yn gynnwys eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn y penderfynwyd ar y dyfarniad.

BUDDSODDIADAU

Dangosir buddsoddiadau yn y fantolen yn ôl gwerth teg (gwerth ar y farchnad) ar gyfer pob dosbarth o offerynnau ariannol.

TRETH AR WERTH

Mae'r Cyngor yn derbyn ad-daliad am gost net treth ar werth y mae'n ei thalu. Paratowyd y cyfrifon heb gynnwys treth, yn unol â SSAP 5.

DATGANIAD O BOLISIŨAU CYFRIFYDDU

parhad

PERTHYNAS ARIANNOL Â CHWMNŨAU

Cyngor Sir y Fflint yw unig gyfranddaliwr AD Waste Limited, cwmni 'hyd braich' gwaredu gwastraff awdurdod lleol (CGGAL) fel a ganiateir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. Cedwir y breindal a'r buddrannau a dderbynnir gan y cwmni at ddibenion gwaredu gwastraff yn y dyfodol.

Ar 28 Medi 2007, hysbysodd y Cyngor ei fod yn terfynu'i gytundeb â'r cwmni erbyn 30 Medi 2009; yn dilyn adolygiad o'r gwahanol ddewisiadau a oedd ar gael, ac o ystyried y dyddiad y byddai'r cytundeb yn dod i ben, penderfynodd yr Awdurdod, ar 29 Hydref 2008, i ymdrin â gweithgareddau'r cwmni'n fewnol. Caiff y gwaith o drosglwyddo masnach ac asedau'r cwmni ei gwblhau yn ystod 2010/11.

CYFRIFON GRŴP

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sydd â buddiannau sylweddol, wedi'u cronni, mewn is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiedig neu fentrau ar y cyd, baratoi set gyflawn o ddatganiadau ariannol grŵp. Mae gan y Cyngor fuddiannau sylweddol yn AD Waste Limited, y pennwyd ei fod yn is-gwmni, a chafodd ei gyfrifo felly, yn unol ag FRS 2 (Cyfrifo am Ymgymeriadau Atodol).

Dyddiad Awdurdodi'r Cyfrifon

Awdurdodwyd Datganiad Cyfrifon 2009/10 i'w gyhoeddi ar 16 Medi 2010 gan Kerry Feather (Swyddog Cyllid y Sir). Hyd y dyddiad hwn yr ystyriwyd digwyddiadau wedi'r fantolen.

Tudalen 10

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD O GYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod :-

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a gofalu bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Swyddog Cyllid y Sir yw'r swyddog hwnnw.
- rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac er mwyn diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r datganiad cyfrifon.

Llofnod:

**Owen Thomas
Cadeirydd y Cyngor Sir**

Dyddiedig:

CYFRIFOLDEBAU SWYDDOG CYLLID Y SIR

Mae Swyddog Cyllid y Sir yn gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol a osodwyd allan yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr ("y Cod").

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, gwnaeth Swyddog Cyllid y Sir y canlynol :-

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- dod i farn a gwneud amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â'r Cod.

Mae Swyddog Cyllid y Sir hefyd wedi gwneud y canlynol:-

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a chyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Paratowyd y datganiad cyfrifon a ganlyn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010. Mae'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno safbwynt cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2010, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Hefyd, mae'r datganiad yn cyflwyno safbwynt cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiynau Clwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 a maint ei asedau a'i ymrwymadau ar y dyddiad hwnnw a sut y trefnwyd y rhain.

Llofnod:

**Kerry Feather CPFA
Pennaeth Cyllid**

Dyddiedig:

1. CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y gweithredir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am ofalu bod trefniadau llywodraethu priodol ar gael sy'n hwyluso gweithredu swyddogaethau'r Cyngor yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau rheoli risg.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith y CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) / SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol), sef *Delivering Good Governance in Local Government*

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut y mae Cyngor Sir y Fflint wedi cydymffurfio â'r Cod a hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010.

2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Cyngor a'i waith a thrwyddynt, mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gynllunio a darparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Rhan bwysig o'r fframwaith hwn yw'r system rheoli mewnol sydd wedi'i gynllunio i reoli risgiau a heriau a'u cadw ar lefel resymol. Ni all ddileu pob risg a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion, felly gall gynnig sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o'u heffeithlonrwydd. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisiau, blaenoriaethau, nodau ac amcanion y Cyngor. Mae hefyd yn gwerthuso pa mor debygol yw hi i'r risgiau a'r heriau hynny gael eu gwireddu, eu rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

Roedd y fframwaith llywodraethu'n cael ei weithredu yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 a hyd at y dyddiad y cafodd y datganiad cyfrifon blynyddol ei gymeradwyo.

3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae prif elfennau trefniadau llywodraethu'r Awdurdod wedi'u hadlewyrchu yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Cod yn ffurfio rhan o'r Cyfansoddiad ac mae'n berthnasol i bob agwedd ar fusnes y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Aelodau a'r gweithwyr ymddwyn yn unol â'r safon uchel a ddisgwylir gan bobl Sir y Fflint a'r chwe egwyddor craidd sydd wedi'u gosod allan yn Fframwaith diwygiedig CIPFA / SOLACE.

- Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod ac ar ganlyniadau ar gyfer y gymuned a chreu gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol a'i rhoi ar waith.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

- Aelodau a swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin gyda swyddogaethau a rolau pendant
- Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod a dangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau ymddygiad uchel
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun prosesau craffu a rheoli risg effeithiol
- Meithrin gallu aelodau a swyddogion o fod yn effeithiol
- Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd dibynadwy

Mae gan y Cyngor Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredd sy'n nodi cyfrifoldebau'r Aelodau a'r gweithwyr yng nghyswllt hyrwyddo diwylliant o onestrwydd ac uniondeb.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Fforwm Cyfansoddiad, yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cod, a'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn gyfredol. Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Ariannol priodol sy'n gyfrifol am sicrhau, drwy gynnal adolygiad blynyddol, bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Cod, a bod Archwiliad Mewnol yn cael ei gynnal yn annibynnol ar y broses archwilio.

Cynhaliwyd adolygiad hunanasesu dechreuol o drefniadau llywodraethu corfforaethol yn ystod 2007 a oedd yn dangos yn glir bod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn chwe egwyddor craidd CIPFA / SOLACE. Cafodd y Cod Llywodraethu Corfforaethol ei adolygu a'i fabwysiadu wedyn gan y Cyngor Sir ym mis Hydref 2008. Cynhaliwyd adolygiad hunanasesu arall o drefniadau llywodraethu corfforaethol ar ddechrau 2010, gan nodi llwyddiannau'r Cyngor o dan bob un o'r chwe egwyddor craidd a, lle bo hynny'n briodol, nodwyd pa gamau pellach a oedd yn ofynnol i atgyfnerthu trefniadau'r Cyngor. Bydd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu hymgorffori yn nhrefniadau cynllunio busnes y Cyngor. Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol yn gyffredinol ac wedi gwneud ambell argymhelliad i sicrhau mwy o welliannau. Bydd yr adran Archwilio Mewnol yn cadw llygad ar y camau hyn fel rhan o'i hadolygiad parhaus o Lywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol – Adolygiad Hunanasesu 2010 a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gael gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Mae proses llywodraethu corfforaethol gadarn yn cael ei ategu gan y prosesau cynllunio busnes a'r disgyblaethau cynllunio gwasanaethau, rheoli risg a rheoli cyllid. Mae fframwaith cynllunio newydd wedi'i ddatblygu'n seiliedig ar Fframwaith Cynllun Llywodraethu (y Cyngor), sy'n cael ei gynnal gan wasanaethau tair cyfarwyddiaeth y Cyngor a nodir yn y cynlluniau gwasanaeth atodol a'r trefniadau arfarnu. Mae Fframwaith Cynllun Llywodraethu (y Cyngor) yn cynnwys dogfennau cysylltiedig sy'n datgan uchelgais, blaenoriaethau a thargedau yn erbyn fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio sut y mae'r Cyngor yn cael ei redeg a'i lywodraethu ac yn nodi gwerthoedd, swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol y gyfundrefn.

Mae'r tair Cyfarwyddiaeth gwasanaeth wedi cynhyrchu Cynlluniau Cyfarwyddiaeth sy'n rhoi crynodeb o'r perfformiad allweddol, y risg a'r gweithgareddau gwella ar gyfer Cyfarwyddiaethau yn ogystal ag adlewyrchu agweddau allweddol ar ddarparu ymrwymadau i'r partneriaethau strategol. Caiff y gwasanaethau corfforaethol eu hadlewyrchu mewn Cynllun Gwasanaethau Corfforaethol sy'n crynhoi prif feysydd gweithgarwch y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Adnoddau Dynol, Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Yn ogystal, mae pob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor wedi adolygu a chwblhau eu cynlluniau gwasanaeth ar lefel Pennaeth Gwasanaeth. Cynlluniau blynyddol yw'r rhain sy'n cynnwys ystyriaeth fwy hirdymor tan 2013 i adlewyrchu amcanion gwasanaethau cynaliadwy, parhad busnes a pherfformiad mwy hirdymor ac ymrwymadau gwella.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth ar gael gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn ailddiffinio'r ddyletswydd sylfaenol sydd ar awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus a rhoi cyfrif amdanynt. Mae hefyd yn mynnu bod partneriaid lleol yn cymryd rhan ac yn cydweithredu i ddarparu canlyniadau cynlluniau cymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer newid a gwelliant yn cael eu pennu'n flynyddol ac maent yn cael eu cefnogi gan brosesau cynllunio busnes y Cyngor a gynhwysir yn ei Fframwaith Cynllun Llywodraethu (Cyngor). Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys asesiad corfforaethol ac asesiad perfformiad, a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd â rheolyddion eraill (Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg); adroddir y canlyniad mewn Asesiad Gwella blynyddol.

Mae cynnwys yr adolygiad parhaus o'r asesiad strategol o risgiau a heriau yn cyfrannu at (i) Raglen Waith y Tîm Rheoli Corfforaethol, (ii) Rhaglen Rheoleiddio Mewnol ac Allanol ar gyfer 2010/11 a (iii) Fframwaith Cynllunio'r Cyngor. Trefnwyd yr asesiad strategol o dan y categorïau a ganlyn:

- Arweinyddiaeth Gymunedol – materion lleol hanfodol na all y Cyngor ymdrin â nhw ar ei ben ei hun (e.e. tai fforddiadwy)
- Rhoi Gwasanaethau'r Cyngor ar Waith – materion yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus y mae'r Cyngor yn bennaf gyfrifol drostynt ac yn eu rheoli (e.e. Tai)
- Llywodraethu'r Cyngor – materion yn ymwneud â llywodraethu a rheoli cyfundrefnol (e.e. Cyllid)

Mae'r Asesiad Strategol o Risgiau a Heriau ar gael gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

I sicrhau eglurdeb, cyfeiriad a chysondeb yn y nodau a'r disgwyliadau datganedig ar gyfer llywodraethu da, mae'r Cyngor wedi creu drafft o Ddatganiad o Flaenoriaethau Gweinyddu, sy'n cwmpasu tymor presennol y Cyngor (hyd Fai 2012). Mae'r rhestr yn un gynhwysfawr o ddeg blaenoriaeth llywodraethu a deg ar hugain o flaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus.

Y blaenoriaethau:

- Egluro disgwyliadau ar gyfer y Cyngor a'i reolaeth broffesiynol
- Sicrhau bod blaenoriaethau ffurfiol y Cyngor yn gyson â blaenoriaethau gwleidyddol y Weinyddiaeth
- Diwallu'n uniongyrchol y sylwadau yn y Llythyr Blynyddol diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Datganiad o Flaenoriaethau Gweinyddu ar gael gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae cyd-destun ariannol y dyfodol yn un eithriadol o heriol oherwydd y gostyngiadau sylweddol a broffwydir yn refeniw ac adnoddau cyfalaf llywodraeth ganolog yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae Rhaglen a Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi Cymru wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Y nod yw gwella effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo arloesedd ac ennyn diddordeb y gweithlu yn y modd y mae gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i ddinasyddion, a datblygu partneriaethau llawer cryfach rhwng sefydliadau a ffiniau gweinyddol.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRP) wedi cyhoeddi ei weledigaeth i gydweithio a chreu partneriaethau allanol, er mwyn gwneud ei sefydliadau'n fwy effeithlon, effeithiol ac ymatebol. Mae wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu pedwar Bwrdd Rhaglen i ddatblygu partneriaethau cydweithio yn y rhanbarth.

Mae'r Cyngor yn datblygu Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint er mwyn rheoli effeithiau gostyngiadau yng nghyllid y sector cyhoeddus. Mae'r rhaglen yn un gyfanwerthol, uchelgeisiol a heriol ac mae'n anelu at:

- Osod allan datganiad o fwriad ynglŷn â sut y bydd y Cyngor yn rheoli'r her ariannol fel sefydliad sector cyhoeddus unigol a chyda'i bartneriaid
- Darparu fframwaith o gamau gweithredu cydunol ac effeithiol er mwyn newid y sefydliad
- Darparu opsiynau i ddewis ei flaenoriaethau
- Galluogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'i gynhwysedd a chael darlun clir o'r adnoddau y bydd angen eu cael yn fewnol ac yn genedlaethol, i gyflawni'r her.

Mae Rhaglen Dyfodol Sir y Fflint wedi'i rhannu'n ddwy ran. Y Rhaglen Newid a'r Rhaglen Ddewis. Nod y Rhaglen Newid yw gwneud y Cyngor mor effeithlon ag sy'n bosibl. Nod y Rhaglen Ddewis yw dewis y ffyrdd mwyaf effeithiol a chost-effeithlon o lywodraethu a darparu gwasanaethau, boed hynny'n uniongyrchol neu ar ffurf partneriaeth a chaffaeliad gyda llywodraeth leol, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Yn ystod 2008/09, roedd gofyn i bob cyngor gytuno â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gytundeb Gwella (a ddisodlir gan Gytundeb Canlyniadau yn 2010/11). Mae Cytundebau Gwella wedi'u strwythuro i ddangos cyfraniad awdurdodau lleol i Gymru'n Un, sef rhaglen lywodraethu dros dymor y Cynulliad presennol, sy'n darparu agenda i wella bywydau pobl yng Nghymru. Cafodd cynnwys manwl cytundeb y Cyngor ei ardystio gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2009, ac roedd yr adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Rhagfyr 2009 yn datgan fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei dargedau ar gyfer 2008/09.

Mae'r Cytundeb Gwella ar gael gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Mae gan Sir y Fflint amrywiaeth eang o bartneriaethau a threfniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae'r rhain yn amrywio o gyrff strategol, statudol a gweithredol a chyrff sy'n comisiynu a chontractio, i gyrff cynghori a chyrff sy'n cydweithio â'r awdurdod i ddatrys problemau. Partneriaethau strategol Sir y Fflint yw sylfaen trefniadau cynllunio cymunedol y Cyngor (Sir y Fflint mewn Partneriaeth) ac maent yn cynnwys: Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir y Fflint, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Bartneriaeth Adfywio a Chompaact y Sector Gwirfoddol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI) bedair swyddogaeth: bod yn gorff partneriaeth i arweinwyr lleol; cyflawni dyletswyddau'r BGLI; adolygu arferion llywodraethu a pherfformiad partneriaethau strategol yn gyson ac yn effeithiol; a nodi problemau cyffredin fel cyrff cyhoeddus. Mae model newydd ar gyfer llywodraethu partneriaethau (gan gynnwys hunanasesiad blynyddol) wedi'i ddatblygu a'i ardystio gan y BGLI ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaethau strategol a chyrrff 'perthnasol' eraill.

Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol wedi cymeradwyo Strategaeth Gymunedol 2009-2019 fel 'gweledigaeth sirol' i Sir y Fflint, sy'n darparu fframwaith ar gyfer cyfres o raglenni gwaith a datblygu Cytundebau Darparu Lleol rhwng y Cyngor a'i bartneriaid cynllunio cymunedol.

4. ADOLYGU EFFEITHLONRWYDD

Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb dros gynnal adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu, bob blwyddyn o leiaf, gan gynnwys ei system rheoli mewnol. Mae'r broses hon yn seiliedig ar:-

- Waith cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd rheoli mewnol; mae'r holl Gyfarwyddwyr wedi cwblhau Datganiadau Sicrwydd Gwasanaeth ar gyfer 2009/10. Caiff y broses o gasglu sicrwydd ei hadolygu yn ystod 2010, er mwyn ymestyn y broses o baratoi Datganiad o Sicrwydd Gwasanaeth i lefel gwasanaethau
- Datganiad Sicrwydd wedi'i gwblhau gan AD Waste Limited yn unol â gofynion SORP 2009 (sylwadau a sgoriau asesu sicrwydd gan AD Waste) – 100% ohono'n eiddo i'r Cyngor – Gweithgaredd Grŵp
- Gwaith Archwilio Mewnol, Rheoli Risg, Cyllid a Pherfformiad
- Sylwadau'r archwilydd allanol a benodwyd (PwC / SAC) ac asiantaethau ac arolygwyr adolygu eraill

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod allan sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, y gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad wedi'i rannu'n 19 erthygl sy'n gosod allan y rheolau sylfaenol sy'n rheoli busnes y Cyngor.

Sut y mae'r Cyngor yn gweithredu

Mae'r Cyngor yn cynnwys 70 o gynghorwyr a gaiff eu hethol bob pedair blynedd. Mae'r Cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i'r bobl sy'n byw yn eu hadrannau etholiadol. Y Cyngor Sir sy'n cymeradwyo polisiau cyffredinol y Cyngor ac sy'n pennu'r gyllideb flynyddol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn rhan o'r Cyngor ac yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae 9 aelod portffolio yn y Pwyllgor Gweithredol gan gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd.

Ar hyn o bryd, mae chwech o bwyllgorau Arolygu a Chraffu yn dwyn y Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor i gyfrif. Fodd bynnag, ar ôl adolygu Arolygu a Chraffu, mae'r Pwyllgor Cyfansoddiad wedi argymhell fod dau o'r pwyllgorau'n cael eu cyfuno o 2010/11 ymlaen. Mae gweithgareddau'r Pwyllgorau'n cael eu cydlynu gan Bwyllgor Cydlynu'r Pwyllgorau Craffu, sy'n sicrhau, ymhlith pethau eraill, nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu ac nad yw ymdrechion yn cael eu gwastraffu yn y maes hwn. Bydd y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.

Tudalen 16

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Gallant alw penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol i mewn cyn y cânt eu rhoi ar waith. Drwy hyn, gallant ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol ac os yw'n berthnasol gallant ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gweithredol neu ofyn i'r Cyngor ei adolygu.

Caiff busnes y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgorau Arolygu a Chraffu a'r Cyngor cyfan ei gyhoeddi yn y flaenraglen waith. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgorau Arolygu a Chraffu, y Cyngor a'r Pwyllgorau eraill ar agor i'r cyhoedd ac eithrio pan fydd materion cyfrinachol neu faterion sydd wedi'u heithrio, yn cael eu trafod, yn unol â'r gyfraith. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gweithredol ddod i benderfyniadau sy'n cyd-fynd â chyllideb a pholisïau cyffredinol y Cyngor. Os yw am ddod i benderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid ei gyfeirio at y Cyngor cyfan.

Yn unol â chanllawiau arfer da, mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio sydd â Chylch Gorchwyl clir. Rôl a swyddogaethau'r Pwyllgor yw:

- Adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol a systemau rheoli risg y Cyngor
- Arolygu'r broses cynhyrchu adroddiadau ariannol i sicrhau cydbwysedd, tryloywder a hygredd y wybodaeth ariannol a gyhoeddir
- Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol o fewn cyd-destun rheoleiddio ehangach.

Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad pob Cynghorydd. Mae Cod Ymarfer ar gyfer ymddygiad cynghorwyr wedi'i fabwysiadu ac mae'r holl Gynghorwyr wedi cytuno i gadw ato. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cynnwys pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn gynghorwyr na'n swyddogion nac ychwaith yn briod ag un o gynghorwyr neu swyddogion y Cyngor neu unrhyw Awdurdod arall a ddiffinnir yn y Ddeddf. Penodir y pum aelod yn unol â'r drefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001. Yn ogystal â'r rhain, mae tri chynghorydd arall (nid yr Arweinydd nac unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gweithredol), ac un aelod o yngor cymuned.

Diben Archwilio Mewnol yw cynnal adolygiad annibynnol statudol i wasanaethu'r Pwyllgor Gweithredol a rheolwyr ar bob lefel. Mae'n rhaid i Archwilio Mewnol fodloni safonau a bennwyd gan gyrff proffesiynol fel CIPFA a gofynion y Bwrdd Arferion Archwilio, fel y'u dehonglir gan God Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwiliadau Mewnol Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Mae Archwilio Mewnol yn annibynnol ar y gweithgareddau y mae'n eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi barn ddiduedd sy'n hanfodol o safbwynt ymddygiad priodol a'r gallu i roi cyngor diduedd i reolwyr. Yn y cyswllt hwn, mae Archwilio Mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n caniatáu:-

- Mynediad llawn at holl swyddogaethau, cofnodion ac eiddo;
- Mynediad llawn at y Pwyllgor Archwilio;
- Mynediad llawn at uwch reolwyr, yr aelodau a'r holl staff;
- Cyhoeddi adroddiadau archwilio o dan ei enw ei hun.

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol.

Mae'r Gweithgor Protocol Cynllunio wedi llwyddo i gyflwyno proses cynrychiolaeth trydydd parti mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Datblygu ac wedi cytuno ar broses gohirio penderfyniadau a wnaed yn erbyn argymhellion swyddogion. Mae Cynllun Dirprwyo diwygiedig ar gyfer y Pennaeth Cynllunio wedi'i gyflwyno er bod adolygiad mwy sylfaenol yn yr arfaeth.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Mae'r Pwyllgor Cyfansoddiad wedi dyfeisio rhaglen waith, ond mae rhai agweddau wedi cael eu hoedi gan na ddechreuodd ymarfer Diagnostig Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar amser. Bydd hwn yn nodi arfer da ac yn amlygu meysydd i'w datblygu ymhellach.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gynnal perthnasau diwydiannol effeithiol a chadarn trwy gydweithio â'i undebau llafur cydnabyddedig. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae rheolwyr ac Aelodau etholedig yn cyfarfod â'r undebau llafur yn rheolaidd. Mae Cyd-bwyllgor Undebau Llafur Sir y Fflint (FJTUC) yn cynnwys cynrychiolwyr uwch reolwyr a chydweithwyr undebau llafur ac mae'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (JCC) yn cynnwys uwch reolwyr, aelodau etholedig ac undebau llafur. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio fframwaith i gyfnewid syniadau a barn sy'n effeithio ar fuddiant y gweithlu a'r sefydliad. Mae'r pwyllgorau hyn yn galluogi'r Cyngor i ymgysylltu'n llawn â'r undebau llafur yn gynnar ac i gyfathrebu ac ymgynghori ar gynigion a materion sydd o ddiddordeb i bob parti. Mae'r trefniadau hyn yn bwysig er mwyn cynnal partneriaeth rhwng undebau cyflogwyr ac undebau llafur y Cyngor.

5. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Nodwyd rhai gwendidau arwyddocaol gan yr adran Archwilio Mewnol yn ystod 2009/10 yn y meysydd a ganlyn:-

- Adennill Rhent
 - Mae angen gwella rheolaeth dros adennill dyledion ac eiddo gwag
- Grantiau Corfforaethol
 - Mae angen gwneud defnydd llawn o'r gofrestr grantiau corfforaethol a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Llyfr Cyfrifon Cyffredinol
- Caffaeliad
 - Mae angen sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheolau Gweithdrefnau Contract
- Cynnal a Chadw a Thrwsio Tai
 - Mae angen ailgyflwyno rheolaethau blaenorol dros wiriadau stoc
- TASK (System gostiadau gwaith priffyrdd)
 - Mae angen gwella rheolaethau dros gostau ac anfonebau
- Contractau Tacsis
 - Mae angen gwella rheolaethau dros dendro a dyfarnu contractau
- Diogelu'r Cyhoedd – Incwm am Ffioedd
 - Mae angen gwella systemau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag incwm o ffioedd

Paratowyd cynlluniau gweithredu manwl i fynd i'r afael â'r materion hyn rhag blaen.

Yn Natganiad Rheoli Mewnol 2008/09, nododd yr Adran Archwilio Mewnol wendidau mawr. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiadau hyn. Yn ystod 2009/10, cafodd y meysydd hyn eu holrhain i sicrhau fod camau'n cael eu cymryd.

Adroddwyd bod camau wedi'u cymryd i liniaru'r gwendidau mawr yn y meysydd canlynol a'u bod wedi'u cwblhau:

- Cyfrifyddu asedau
- Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol
- Grantiau i Fudiadau Gwirfoddol
- Maethu a Mabwysiadu

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

parhad

Yn y meysydd sydd ar ôl, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae llawer ar ôl i'w wneud:

- Llyfr Cyfrifon Cyffredinol
 - Mae angen system gyfrifiadurol newydd
- Adennill dyledion a gorfodaeth
 - Mae angen tynhau'r rheolaeth ar adennill dyledion, gwirio credyd a dileu dyledion drwg
- Perchnogaeth tir
 - Mae angen diweddarau'r tirlyfr i ddangos yr holl dir ac eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arno

Mae'r Asesiad Strategol o'r Risgiau a'r Heriau (SARC) yn rhoi manylion y blaenoriaethau ar gyfer newid a gwella ynghyd â'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd ar y lefel uchaf.

Yr egwyddorion a sefydlwyd sy'n tanategu'r asesiad strategol yw:

- Dogfen 'fyw' sy'n datblygu o hyd yw hon sy'n golygu ei bod yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n gyson. Caiff fersiynau eu harbed a chaiff y fersiwn diweddaraf ei roi ar fewnwyd y Cyngor.
- Caiff adroddiadau aelodau eu paratoi bob chwarter ac adroddiad monitro bob mis i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Bydd yr holl risgiau a'r heriau eu cynnwys yn adroddiadau arfarnu'r swyddogion.

Rhoddwyd crynodeb o statws yr holl risgiau a heriau strategol mewn adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2010.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys systemau a phrosesau sy'n sicrhau adolygiad parhaus o drefniadau rheoli mewnol y Cyngor a dylai ychwanegu gwerth. Bydd y fframwaith yn helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ar ei nod o sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddefnyddio'r adnoddau ariannol a dynol sydd ar gael i ddiwallu anghenion y gymuned yn y ffordd orau bosibl.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion uchod ymhellach i wella'n trefniadau llywodraethu. Rydym yn ffyddiog y bydd y camau hyn yn delio â'r angen i wella'r meysydd a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn monitro'r modd y cânt eu rhoi ar waith fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

.....
Arweinydd y Cyngor

.....
Prif Weithredwr

.....
Pennaeth Cyllid

Dyddiad :

Tudalen 19

Y CYFRIF INCWM A GWARIANT am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	Nodyn	2010		2009	
		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Gwariant Net
		£000	£000	£000	£000
Dadansoddiad o wariant ar wasanaethau					
Gofal cymdeithasol i oedolion		56,254	16,362	39,892	37,920
Gwsanaethau canolog i'r cyhoedd		3,344	1,754	1,590	1,666
Addysg a gwasanaethau plant		237,624	26,773	210,851	129,061
Gwasanaethau'r llysoedd		237	0	237	200
Diwylliant, yr amgylchedd, rheoleiddio a chynllunio		77,829	22,356	55,473	41,073
Priffyrdd a thrafnidiaeth		24,744	10,500	14,244	12,609
Gwasanaethau tai:					
Tai - cronfa'r Cyngor		51,322	48,382	2,940	5,080
Cyfrif refeniw tai (HRA)		107,864	24,336	83,528	9,015
Corfforaethol a chraidd democrataidd		1,603	16	1,587	2,606
Costau nas dosbarthwyd		6,834	0	6,834	1,114
Gostyngiad yng gwerth costau offer a chyfarpar		3,871	0	3,871	3,871
Cost net gwasanaethau		571,526	150,479	421,047	244,215
Elw net ar ôl gwerthu asedau sefydlog				(648)	0
Ardoll - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru				6,973	6,766
Prif braesept - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru*	4			11,793	11,234
Praeseptau eraill - cynghorau cymuned	4			2,040	1,977
Gwasanaethau masnachu				0	207
Llog taladwy a thaliadau tebyg	1			9,871	10,001
Colledion buddsoddiadau	2			351	548
Incwm llog a buddsoddiadau				(756)	(3,119)
Cost llog pensiynau	3			30,299	30,607
Elw disgwylidig ar asedau pensiwn	3			(17,024)	(21,202)
Gwariant gweithredol net				463,946	281,234
Y Dreth Gyngor*	4			(65,151)	(62,901)
Dosbarthiad o'r gronfa ardrethi annomestig	5			(40,437)	(39,371)
Grantiau gan y Llywodraeth - cyffredinol	6			(143,293)	(139,074)
(Gwarged)/diffyg am y flwyddyn				215,065	39,888

Mae'r gostyngiad yng ngwerth costau offer a chyfarpar yn ymwneud â symiau cyn 2005/06 a oedd wedi'u cynnwys yn y fantolen fel canrannau o werth yr asedau perthnasol, yn hytrach nag eitemau unigol yr oedd modd eu hadnabod - 2009/10 yw'r flwyddyn olaf y gofynnir am ostyngiad.

* Ailddatganwyd ffigyrau 2008/09 yn unol â gofynion SORP 2009. Yr addasiadau sy'n ofynnol trwy SORP 2009 ar gyfer y flwyddyn flaenorol yw- (1) datgelu praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (£11,234k), a; (2) grosio cyfanswm incwm y dreth Gyngor (o £51,667k i £62,901k) i adlewyrchu'r praesept. Mae ffigyrau 2009/10 yn cymryd newidiadau datgelu tebyg i ystyriaeth. Nid yw'r addasiadau cywirol hyn yn cael unrhyw effaith ar ffigyrau balans cronfa'r Cyngor a welir ar dudalen 20.

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn datgelu'r incwm i'w dderbyn a'r swm a wariodd y Cyngor ar redeg ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Y diffyg o £215,065k yw'r bwlch rhwng yr incwm a'r gwariant, gyda mwy o wariant nac incwm.

Mae'r symiau sy'n ychwanegol at ddiffyg y Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn ac y mae'n rhaid eu credydu i gronfa'r Cyngor wrth bennu'r symudiadau ar falans cronfa'r Cyngor am y flwyddyn, i'w gweld ar dudalen 20.

Tudalen 20

DATGANIAD O SYMUDIADAU AR FALANS CRONFA'R CYNGOR

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

CYNNYDD NEU OSTYNGIAD YM MALANS CRONFA'R CYNGOR AM Y FLWYDDYN

	2010	2009
Nodyn	£000	£000
Gwarged neu ddiffyg yn y cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn	215,065	39,888
Swm ychwanegol net y mae'n ofynnol yn statudol neu'n ôl arferion priodol anstatudol i'w debydu neu eu credydu i falans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn	(215,783)	(41,167)
(Gwarged)/diffyg yng nghronfa'r Cyngor am y flwyddyn	(718)	(1,279)
Balans cronfa'r Cyngor a ddygwyd ymlaen	(25,078)	(23,799)
Balans cronfa'r Cyngor a ddygwyd ymlaen	7 (25,796)	(25,078)

DADANSODDIAD O EITEMAU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL YN STATUDOL NEU'N ÔL ARFERION PRIODOL ANSTATUDOL AC Y MAE ANGEN EU HYSTYRIED WRTH BENNU GWARGED NEU DDIFFYGG YNG NGHONFA'R CYNGOR AM Y FLWYDDYN

	2010	2009
Nodyn	£000	£000
Symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n rhaid, yn ôl statud, eu heithrio wrth bennu'r Symudiadau ar falans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn		
Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol	17* (6)	(6)
Dibrisiant ac amhariad yng nghyswllt asedau sefydlog	18* (221,704)	(48,095)
Grantiau gan y llywodraeth yn gohirio amorteiddio	30 3,012	2,565
Gwariant refeniw a ariennir o'r cyfalaf yn ôl statud	18* (4,126)	(7,274)
Elw net ar ôl gwerthu asedau sefydlog	648	0
Y gwahaniaeth rhwng symiau a gafodd eu debydu/credydu i'r cyfrif incwm a gwariant a'r symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan ddarpariaethau statudol yn gysylltiedig â benthyciadau llog isel a phremiymau a gostyngiadau am ad-dalu dyledion yn gynnar	613	613
Amhariad buddsoddiadau ym manciau Gwlad yr Iâ	2 (351)	(575)
Y gwahaniaeth rhwng y costau pensiwn a gyfrifwyd yn unol â'r SORP (h.y. yn unol â FRS 17) â'r cyfraniadau sy'n ddyledus o dan rheoliadau'r cynllun pensiwn	3 (2,105)	(1,884)
Darpariaeth ôl-daliadau am daliadau anghyfartal	(4,903)	0
	(228,922)	(54,656)
Symiau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ond y mae'n rhaid eu cynnwys yn ôl statud wrth bennu'r Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn		
Darpariaeth statudol i ad-dalu dyledion	8 6,251	6,203
Gwariant cyfalaf a godir ar falans Cronfa'r Cyngor	Gweler isod # 1,031	1,830
Trosglwyddo i'r gronfa ariannu cyfalaf wrth gefn	899	0
	8,181	8,033
Trosglwyddiadau i falans Cronfa'r Cyngor neu ohoni mae'n rhaid eu ystyried wrth bennu'r Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn		
Balans y Cyfrif Refeniw Tai	33 575	(511)
Trosglwyddiad net i(o) arian wrth gefn a glustnodwyd	5,436	6,040
Elfen ysgolion	(1,053)	(73)
	4,958	5,456
Swm roedd y gwarged ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn yn fwy na'r canlyniad Incwm a Gwariant am y flwyddyn	(215,783)	(41,167)

* cydweddu gwerth y taliadau perthnasol a welir yn nodiadau 17 ac 18.

Cronfa'r Cyngor £248k, CRT £783k (gweler tudalen 59).

Tudalen 21

DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	2010	2009
	£000	£000
(Gwarged)/diffyg yn y cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn	215,065	39,888
(Gwarged)/diffyg yn codi o ailbrizio asedau sefydlog	(74,805)	(16,534)
(Gwarged)/diffyg yn codi ar ôl ailbrizio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	66	(55)
(Enillion) a cholledion actwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensïynau	66,121	(7,664)
Newid dosbarthiadau ar y fantolen	0	(232)
Enillion a cholledion nad ydynt wedi'u dangos yn y cyfrif incwm a gwariant	(882)	(263)
Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn	<u>205,565</u>	<u>15,140</u>

Nid yw'r holl enillion a'r colledion a ddaeth i ran y Cyngor yn cael eu dangos yn y cyfrif incwm a gwariant; mae'r datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig (DCECC) yn dwyn ynghyd holl enillion a cholledion y Cyngor am y flwyddyn.

Mae'r cyfrif incwm a gwariant yn dwyn ynghyd holl swyddogaethau'r awdurdod ac yn crynhoi'r holl adnoddau a gynhyrchwyd, a ddefnyddiwyd neu a osodwyd o'r neilltu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cydnabyddir enillion a cholledion eraill yn y fantolen nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r cyfrif incwm a gwariant. Y DCECC yw'r datganiad sy'n dwyn yr holl enillion a cholledion eraill hyn ynghyd gydag alldro'r cyfrif incwm a gwariant i ddangos cyfanswm y symudiadau yn y gwerth net (fel y'i cofnodwyd ar y fantolen) ar gyfer y flwyddyn.

Tudalen 22

MANTOLEN

31 Mawrth 2010

	Note	2010		2009	
		£000	£000	£000	£000
Asedau sefydlog					
Asedau anniriaethol	17		6		12
Asedau sefydlog diriaethol	18				
Asedau gweithredol					
Eiddo'r Cyngor		328,715		386,415	
Tir ac adeiladau eraill		362,233		416,659	
Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar		5,137		9,767	
Asedau seilwaith		153,821		150,208	
Asedau cymunedol		9,134		7,853	
Asedau anweithredol			859,040		970,902
Buddsoddiadau eiddo		26,266		28,790	
Asedau sy'n cael eu hadeiladu		681		9,177	
Asedau dros ben ar gyfer eu gwaredu		13,682		14,437	
Ystâd amaethyddol		14,493		12,439	
			55,122		64,843
Cyfanswm Asedau Sefydlog			914,168		1,035,757
Buddsoddiadau hirdymor	19, 34		612		7,123
Dyledwyr hirdymor	20		299		278
CYFANSWM ASED AU HIRD YMOR			915,079		1,043,158
Asedau Cyfredol					
Stociau	21	1,031		1,210	
Dyledwyr (net o ddarpariaeth amhariadau colledion)*	22	30,096		23,960	
Buddsoddiadau dros dro	23	30,347		33,489	
Arian parod a'r banc	24	5,564		2,195	
			67,038		60,854
Rhwymedigaethau Cyfredol					
Benthyciadau sy'n ad-daladwy ar gais neu cyn pen 12 mis*	25	(1,330)		(1,329)	
Credydwyr*	26	(30,995)		(32,770)	
			(32,325)		(34,099)
CYFANSWM ASED AU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			949,792		1,069,913
Benthyciadau sy'n ad-daladwy cyn pen cyfnod o 12 mis*	27, 34		(173,613)		(173,613)
Rhwymedigaethau wedi'u gohirio	28		(1,025)		0
Cyfrif anghymwysedig grantiau a chyfraniadau	29		(6,906)		(10,229)
Cyfrif grantiau gohiriedig y Llywodraeth	30		(107,100)		(92,488)
Darpariaethau	31		(4,975)		(71)
Ymrwymiad yn ymwneud â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinïc	3		(248,930)		(180,704)
CYFANSWM YR ASED AU LLAI RHWYMEDIGAETHAU			407,243		612,808

* Ailddatganwyd ffigyrau 2008/09 yn unol â gofynion SORP 2009. Yr addasiadau sy'n ofynnol trwy SORP 2009 ar gyfer y flwyddyn flaenorol yw - (1) mae ardrethi annomestig bellach yn cael eu cyfrif fel rhai a gasglwyd ar ran y rheiny sy'n elwa o'r enillion, ac mae'r awdurdodau sy'n bilio yn gweithredu fel asiantau llywodraeth. Mae hyn wedi arwain at ailddatgan dyledwyr 2008/09 (o £24,629k i £23,960k), ynghyd â gostyngiad o'r un maint mewn credydwyr (o £33,439k i £32,770k), a: (2) mae cronïadau llog bellach yn cael eu gwahanu oddi wrth fenthyciadau hirdymor ac yn cael eu cofnodi mewn adran gyfredol o'r fantolen. Mae hyn wedi arwain at ailddatgan benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn cyfnod o dros 12 mis yn 2008/09 (o £174,942k i £173,613k), a benthyciadau sy'n ad-daladwy ar gais neu cyn pen 12 mis (o £dm i £1,329k). Nid yw'r addasiadau cywirol hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfanswm asedau llai rhwymedigaethau yn 2008/09 (a hefyd yn 2009/10 o ganlyniad i addasiadau cyfatebol); mae'r addasiadau'n bwydo trwodd i'r dadansoddiad cysylltiedig yn y datganiad llif arian ar dudalen 24, a nodyn 41 ar dudalen 56.

Tudalen 23**MANTOLEN**
31 Mawrth 2010 (parhad)

		2010		2009	
	Nodyn	£000	£000	£000	£000
Derbyniadau cyfalaf gohiriedig	32		33		57
Cyfrif ôl-daliadau am daliadau anghyfartal			(4,903)		0
Cyfrif addasiadau cyfalaf	33		508,892		717,721
Wrth gefn ar gyfer ailbrisiant	33		124,482		52,889
Arian wrth gefn ar gyfer offerynnau arainnol ar gael i'w gwerthu	33		240		306
Cyfrif addasiadau offerynnau ariannol	33		(11,131)		(11,394)
Derbyniadau cyfalaf wrth gefn	33		4,818		1,788
Wrth gefn ar gyfer pensiynau	33		(248,930)		(180,704)
Wrth gefn:					
Refeniw	33	4,105		3,647	
Cyfalaf	33	899		0	
			5,004		3,647
Balansau:					
Cronfa'r Cyngor	33	27,246		27,581	
Y cyfrif refeniw tai	33	1,492		917	
			28,738		28,498
CYFANSWM Y GWERTH NET			407,243		612,808

Tudalen 24

DATGANIAD LLIF ARIAN am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

	Nodyn	2010		2009	
		£000	£000	£000	£000
GWEITHGAREDDAU REFENIW*					
All-lif Arian					
Arian i'w dalu i weithwyr ac ar eu rhan		180,015		173,457	
Budd-daliadau tai a dalwyd		17,060		13,058	
Praeseptau a dalwyd		<u>20,806</u>		<u>19,977</u>	
			217,881		206,492
Mewnlif Arian					
Rhenti (ar ôl ad-daliadau)		(12,544)		(12,344)	
Derbyniadau'r dreth gyngor		(57,037)		(55,544)	
Derbyniadau ardrethi annomestig o'r gronfa genedlaethol		(40,438)		(39,371)	
Grant cynnal refeniw		(141,572)		(137,351)	
Grantiau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau		(41,666)		(33,866)	
Grantiau eraill gan y Llywodraeth	41	<u>(41,671)</u>		<u>(40,144)</u>	
			<u>(334,928)</u>		<u>(318,620)</u>
			(117,047)		(112,128)
Taliadau/(derbyniadau) arian gweithredu eraill			<u>96,223</u>		<u>121,103</u>
			(20,824)		8,975
ELW AR FUDDSODDIADAU A CHOST BENTHYCA ARIAN					
All-lif arian					
Llog a dalwyd	1	<u>9,875</u>		<u>9,968</u>	
			9,875		9,968
Mewnlif arian					
Llog a dderbyniwyd			<u>(1,124)</u>		<u>(3,909)</u>
			8,751		6,059
GWEITHGAREDDAU CYFALAF					
All-lif Arian					
Prynu asedau sefydlog		<u>31,268</u>		<u>34,553</u>	
			31,268		34,553
Mewnlif arian					
Gwerthu asedau sefydlog		(3,641)		(3,585)	
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		<u>(17,937)</u>		<u>(33,189)</u>	
			<u>(21,578)</u>		<u>(36,774)</u>
			9,690		(2,221)
ARIAN (MEWNLIF) / ALL-LIF NET CYN CYLLIDO			(2,383)		12,813
RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL *					
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn adneuoŷn tymor byr	41	(2,900)		(17,800)	
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn adnoddau hylifol eraill	41	<u>1,914</u>		<u>(1,198)</u>	
			(986)		(18,998)
CYLLIDO					
All-lif arian					
Ad-dalu symiau a fenthyciwyd		<u>0</u>		<u>0</u>	
			0		0
Mewnlif arian					
Benthyciadau hirdymor newydd		<u>0</u>		<u>0</u>	
			0		0
			<u>(986)</u>		<u>(18,998)</u>
(CYNNYDD)/GOSTYNGIAD MEWN ARIAN A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN			(3,369)		(6,185)

* Ailddatganwyd ffigyrau 2008/09 yn unol â gofynion SORP 2009 (gweler y troednodyn ar dudalen 22).

Tudalen 25

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010

1. LLOG TALADWY A THALIADAU TEBYG

Mae cyfanswm y taliadau llog allanol gros, sef £9,875k (£9,957k yn 2008/09), ynghyd ag addasiadau ar ôl ailbriso dyledion sy'n ofynnol o dan FRS 26, yn rhoi cyfanswm cyfanred net o £9,871k (£10,001k 2008/09). Mae'r swm a godir yn ôl ar y CRT, sef £1,596k (£1,689k yn 2008/09) yn cael ei wneud drwy gyfrwng y datganiad o symudiadau ym malans y grofna gyffredinol (ar dudalen 20).

	2010	2009
	£000	£000
Llog allanol		
Llog gros taladwy	9,875	9,957
Addasiadau eraill		
Ailfesur dyledion (FRS 26)	(4)	44
	<u>9,871</u>	<u>10,001</u>

2. COLLEDION YN Y BUDDSODDIADAU

O dan FRS 26, cydnabuwyd addasiadau o £351k net (£548k yn 2008-09) oherwydd amhariad.

	2010		2009	
	£000	£000	£000	£000
Addasiadau oherwydd amhariad - buddsoddi ar gyfer y dyfodol		0		(27)
Addasiadau oherwydd amhariad - Landsbanki	535		704	
Llai llog derbyniadwy	<u>(184)</u>		<u>(129)</u>	
		351		575
		<u>351</u>		<u>548</u>

Mae addasiadau 2009/10 yn ymwneud â buddsoddiadau ym manc Landsbanki yng Ngwlad yr Iâ, a fethodd ym mis Hydref 2008. Mae gan y Cyngor £3,700k wedi'i andeuo yn Landsbanki ac mae'r dyddiadau aeddfedu a'r cyfraddau llog yn amrywio:-

Dyddiad y buddsoddiac	Dyddiad aeddfedu	Swm a fuddsoddwyd £000	Cyfradd llog %
22/07/08	17/10/08	1,200	5.82
01/09/08	14/11/08	1,500	5.70
08/09/08	18/11/09	1,000	5.67

Ar hyn o bryd, mae'r holl arian yn amodol ar y broses weinyddu – y gweinyddwyr fydd yn penderfynu ar y symiau, a phryd y cânt eu talu i adnewyr. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd modd adennill 94.86% o werth y buddsoddiad; mae'r Awdurdod wedi cydnabod amhariad ar sail y symiau yr amcangyfrifir y caiff ei adennill ar 31 Mawrth 2010.

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

2. COLLEDION YN Y BUDDSODDIADAU (parhad)

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael yn derfynol o ran symiau ac amseriad y taliadau i'w gwneud gan y gweinyddwyr, ac mae'n debyg y bydd angen addasu'r cyfrifon eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r addasiad gros ar gyfer amhariad yn 2009/10 (£535k) a gaiff ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant, wedi'i gyfrifo drwy ddiystyru'r llifau arian tybiedig ar gyfradd llog yr adneuon gwreiddiol er mwyn cydnabod y llog y rhagwelir y bydd yr Awdurdod yn ei golli tan y caiff yr arian ei adennill yn llawn. Bydd y tybiaethau'n cael eu haddasu yn y cyfrifon yn y dyfodol wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

Mae'r symiau y llwyddwn i'w hadennill yn dibynnu ar y canlynol:

- Cadarnhau bod statws credydwyr ffafraethol yn cael ei roi gan lysoedd Gwlad yr Iâ. Mae'n anhebygol y ceir penderfyniad yn y cyswllt hwn cyn ail chwarter 2011.
- Effaith y newidiadau yn y gyfradd gyfnewid ar werth yr asedau a gaiff eu hadennill gan y pwyllgor penderfyniadau ac ar y setliad hawliad yr Awdurdod, na fydd o reidrwydd mewn sterling, ond yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn arian cyfred gwahanol. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir i'r newidiadau hyn fod yn sylweddol, er y gall y sefyllfa newid yn y dyfodol.

Os na lwyddir i sicrhau statws credydwyr ffafraethol, gallai hynny effeithio ar faint yr adnau y gellir ei adennill. Nid yw holl asedau'r banc yn cyfateb i fwy na thraean o'i ddyledion, a bwrw bod gwerth y bond yn aros yn sefydlog. Felly, os na cheir statws credydwyr ffafraethol, mae'n bosibl mai dim ond 29% y gellir ei adennill.

Nid yw'r pwyllgor penderfyniadau wedi dweud pryd y caiff adnewyr eu talu. Gan fod disgwyl y bydd angen troi holl asedau Landsbanki yn arian parod i ad-dalu credydwyr ffafraethol, mae'n annhebygol y ceir setliad mewn un swm. Gan hynny, rhagdybir y caiff yr ad-daliad ei wneud fel a ganlyn –

Dyddiad	%
Hydref 2011	22.17
Hydref 2012	8.87
Hydref 2013	8.87
Hydref 2014	8.87
Hydref 2015	8.87
Hydref 2016	8.87
Hydref 2017	8.87
Hydref 2018	19.47
	<hr/>
	94.86

Mae'r Cyngor wedi manteisio ar y Rheoliadau Cyllid Cyfalaf i ohirio'r effaith ar y Gronfa Gyffredinol, ac mae swm o £351k wedi'i drosglwyddo i'r cyfrif addasu offerynnau ariannol. Mae'r balans o £184k yn ymwneud â'r llog y mae'r Gronfa Gyffredinol wedi'i ysgwyddo'n llawn.

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

3. PENSIYNAU

Athrawon:

Yn 2009/10, talodd y Cyngor £7,313k i'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yng nghyswllt costau pensiwn athrawon (£7,214k yn 2008/09), sef 14.11% (ar gyfartaledd) o dâl pensiynadwy athrawon (14.09% yn 2008/09).

Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn yn ymwneud â blynyddoedd ychwanegol, ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2009/10 £434k oedd y swm perthnasol (£380k yn 2008/09), sef 0.84% o dâl pensiynadwy (0.74% yn 2008/09).

Cynllun buddion diffiniedig yw'r Cynllun Pensiwn Athrawon ond caiff ei drin fel cynllun cyfraniad diffiniedig at ddibenion cyfrifyddu gan na all yr Awdurdod ddweud beth yw ei gyfran ef o asedau a rhwymedigaethau.

Gweithwyr cyflogedig eraill:

Talodd y Cyngor £66k i Gronfa Bensiynau Clwyd yn 2009/10 mewn perthynas â llog ar falansau arian (£140k yn 2008/09), a derbyniodd £905k o'r gronfa i weinyddu buddion a gwasanaethau cymorth canolog eraill (£859k yn 2008/09).

Dangosir effaith tâl y costau pensiwn ar y fantolen a'r cyfrif incwm a gwariant yn y nodiadau isod

Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd ar dudalennau 71 i 81, ac yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd sydd ar gael os gofynnwch amdano.

Trafodion yn ymwneud â buddion pensiwn -

Mae cost buddion pensiwn yn cael ei chydnabod yng nghost net y gwasanaethau wrth i'r gweithwyr eu hennill, yn hytrach na phan gaiff y buddion eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r swm y mae angen ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian taladwy yn ystod y flwyddyn, felly mae gwir gost buddion pensiwn wedi'i wyrdroi yn y datganiad o symudiadau ym malans y gronfa gyffredinol. Dyma'r trafodion yn y cyfrif incwm a gwariant a'r datganiad o symudiadau ym malans y gronfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn :-

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD
parhad

3. PENSIYNAU (parhad)

	2010		2009	
	£000	£000	£000	£000
Y Cyfrif Incwm a Gwariant				
Cost net gwasanaethau -				
Cost bresennol gwasanaethau	8,705		12,945	
Cost gwasanaethau yn y gorffennol	61		38	
Cwtogi/setliad	1,726		746	
Gwariant gweithredu net		10,492		13,729
Cost llog	30,299		30,607	
Elw disgwylidig ar asedau'r cynllun	(17,024)		(21,202)	
		<u>13,275</u>		<u>9,405</u>
Cost net i'r cyfrif incwm a gwariant		<u>23,767</u>		<u>23,134</u>
 Datganiad Symudiadau ym Malans Cronfa'r Cyngor				
Gwrth-droi costau net a wnaed ar gyfer buddion ymddeol yn unol ag FRS 17		(23,767)		(23,134)
 Gwir swm a godwyd ar falans cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn				
Cyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun		<u>21,662</u>		<u>21,250</u>
Credyd net i'r datganiad symudiadau		<u>(2,105)</u>		<u>(1,884)</u>

Yn ogystal â'r enillion a'r colledion cydnabyddedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, mae colledion gwerth £66,121k (enillion o £7,664k yn 2008/09) ôl prisiad yr actiwari. Swm cronnus yr enillion a'r colledion ym mhriiad ar actiwari a gaiff eu cydnabod yn y datganiad ar gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig yw £164,140k

Asedau a Dyledion mewn perthynas â Buddion Ymddeol -

Cysoni gwerth presennol dyledion y cynllun -

	2010	2009
	£000	£000
1 Ebrill	429,545	501,354
Cost gyfredol y gwasanaeth	8,705	12,945
Llog	30,299	30,607
Cyfraniadau gan aelodau o'r cynllun	4,996	4,732
Enillion a cholledion actiwaraidd	133,034	(104,007)
Budd-daliadau a dalwyd	(19,306)	(16,870)
Costau'r gwasanaeth yn y gorffennol	61	38
Cwtogi/setliadau	1,726	746
31 Mawrth	<u>589,060</u>	<u>429,545</u>

Tudalen 29

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD parhad

3. PENSIYNAU (parhad)

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun -

	2010	2009
	£000	£000
1 Ebrill	248,841	314,870
Cyfradd enillion disgwylidig	17,024	21,202
Enillion a cholledion actiwaraid	66,913	(96,343)
Cyfraniadau cyflogwr	21,662	21,250
Cyfraniadau gan aelodau o'r cynllun	4,996	4,732
Budd-daliadau a dalwyd	(19,306)	(16,870)
31 Mawrth	<u>340,130</u>	<u>248,841</u>

Y dull a fabwysiadwyd i fodloni gofyniad FRS 17 yw'r un a amlinellir yng nghyhoeddiad CIPFA 'Financial Reporting Standard 17 – Calculation Guide for Local Authorities'. Cytunwyd ar y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gyda'r actiwari (Mercer Human Resource Consulting Cyf., Lerpwl), yn unol â chanllawiau CIPFA.

Pennir yr adenillion disgwylidig ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr adenillion disgwylidig sydd ar gael ar yr asedau sydd wrth wraidd y polisi buddsoddi presennol. Yr adenillion buddsoddi tybiedig ar fondiau'r llywodraeth yw'r cynnyrch ar giltiau llog 20 mlynedd sefydlog ar y dyddiad perthnasol. Yr enillion ar soddgyfrannau yw'r cynnyrch o giltiau llog 20 mlynedd sefydlog a hefyd lwfans ar gyfer y 'premiwm risg' sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau soddgyfrannau.

£83,937k oedd y gwir adenillion ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn (£74,833k [negyddol] yn 2008/09).

Hanes y Cynllun -

	2010	2009	2008	2007	2006*	2005*
	£000	£000	Restated £000	Restated £000	£000	£000
Gwerth presennol	(589,060)	(429,545)	(501,354)	(465,645)	(460,835)	(401,755)
Gwerth teg asedau	340,130	248,841	314,562	317,008	293,235	229,154
Gwarged/diffyg yn y cynllun	<u>(248,930)</u>	<u>(180,704)</u>	<u>(186,792)</u>	<u>(148,637)</u>	<u>(167,600)</u>	<u>(172,601)</u>

* Mae'r Cyngor wedi dewis peidio ag ailddatgan gwerth teg asedau'r cynllun yn 2004/05 a 2005/06. Mae hyn yn dderbyniol yn ôl FRS17 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r dyledion yn dangos y rhwymedigaethau sylfaenol sydd gan yr awdurdod yn yr hirdymor i dalu buddion ymddeol. £249m yw cyfanswm y ddyled ac mae wedi effeithio ar werth net yr awdurdod fel y nodir ar y Fantolen, a'r balans cyffredinol yw £407,243k.

Mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol yr awdurdod yn dal yn iach; bydd cynnydd mewn cyfraniadau dros oes gweithio cyflogeion, fel y cânt eu hasesu gan actiwari'r cynllun, yn talu am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol.

Tudalen 30

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD parhad

3. PENSIYNAU (parhad)

Disgwylir mai cyfanswm y cyfraniadau y bydd y Cyngor wedi'i dalu i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 fydd £19.3m.

Sail amcangyfrif asedau a dyledion -

Mae rhwymedigaethau wedi'u hasesu ar sail prisiad yr actiwari gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol gan ddibynnu ar ragdybiaethau mewn perthynas â chyfraddau marwolaethau, maint cyflogau etc. Mercer Human Resource Consulting Limited, actiwariaid annibynnol, sydd wedi asesu'r rhwymedigaethau; seiliwyd yr amcangyfrifon ar gyfer y Cyngor Sir ar sail y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 1 Ebrill 2007.

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari -

	2010	2009
Elw hirdymor disgwylidig ar aedau yn y cynllun		
Buddsoddiadau ecwiti	7.5%	7.5%
Bondiau	n/a	n/a
Arall	7.5%	7.5%
Rhagdybiaethau marwolaethau		
Hirhoedledd ar ôl 65 - bensiynwyr presenno		
Dynion	21.2 yrs.	21.2 yrs.
Merched	24.1 yrs.	24.0 yrs.
Hirhoedledd ar ôl 65 - pensiynwyr yn y dyfodol		
Dynion	22.2 yrs.	22.2 yrs.
Merched	25.0 yrs.	25.0 yrs.
Cyfradd chwyddiant	3.3%	3.3%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.55%	4.55%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	3.3%	3.3%
Cyfradd gostyngiad yn rhwymedigaethau'r c	5.6%	7.1%
Cyfradd sy'n dewis trosi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ymddeol	50%	50%

Mae asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau a ganlyn, yn ôl cyfran yr holl asedau:-

	2010	2009
	%	%
Buddsoddiadau ecwiti	58	52
Bondiau eraill	12	12
Eiddo	7	8
Arian parod/hylifedd	0	1
Asedau eraill	23	27
Cyfanswm	100	100

Tudalen 31

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

3. PENSIYNAU (parhad)

Y gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r colledion disgwylidig a'r gwir enillion a cholledion -

Mae modd rhoi'r enillion a bennwyd gan yr actiwari ac a nodwyd fel symudiadau yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau yn 2009/10 yn y categorïau a ganlyn, a fesurir fel canran o asedau a dyledion fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2010 :-

	2010	2009	2008	2007	2006	2005
			Restated	Restated		
		%	%	%	%	%
Y gwahaniaeth rhwng yr elw disgwylidig a'r gwir elw ar asedau	19.67	(38.72)	(9.70)	0.64	15.04	3.18
Elw a cholledion ar rwymedigaethau	0.00	0.00	1.68	0.00	(1.87)	0.86

4. Y DRETH GYNGOR

Mae pob annedd domestig wedi'i gynnwys yn rhestr brisio'r Dreth Gyngor a gyhoeddir ac a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gosodir pob annedd yn un o naw prif fand (A i I) yn dibynnu ar brisiad yr eiddo ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Mae degfed band (A*) ar gael dim ond i'r trethdalwyr hynny sy'n byw mewn eiddo band A ac sydd â hawl i ostyngiad lle'r addaswyd eiddo ar gyfer eu hanabledd.

Seilir y Dreth Gyngor ar y band prisio lle gosodwyd yr eiddo. Caiff taliadau eu pennu drwy rannu cyfanswm gofynion incwm blynyddol y Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru â sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y dreth yw nifer yr anheddau mewn ardal awdurdod lleol sy'n gyfwerth â band prisio D, a chaiff ei addasu hefyd ar gyfer gostyngiadau. Y sylfaen ar gyfer 2009/10 oedd 60,328 (60,340 yn 2008/09) fel y gwelir isod:

	Band A*	Band A	Band B	Band C	Band D	Band E	Band F	Band G	Band H	Band I	Cyfanswm	
Anheddau Trethadwy												
Nifer yr anheddau trethadwy	-	3,736	8,594	19,274	11,735	9,677	6,465	2,966	569	219	63,235	
Anheddau â gostyngiad anabledd	-	28	61	134	114	127	73	38	11	21	607	
Anheddau trethadwy wedi'u haddasu	28	3,769	8,667	19,254	11,748	9,623	6,430	2,939	579	198	63,235	
Anheddau taladwy wedi'u haddasu												
Anheddau heb ostyngiad	13	1,253	4,708	12,599	8,433	7,481	5,381	2,532	499	175	43,074	
Anheddau ag un gostyngiad	15	2,516	3,954	6,647	3,303	2,136	1,043	400	63	19	20,096	
Anheddau â dau ostyngiad	0	0	5	8	12	6	6	7	17	4	65	
Anheddau trethadwy â gostyniad	28	3,769	8,667	19,254	11,748	9,623	6,430	2,939	579	198	63,235	
Anheddau Trethadwy â Gostyngiad												
Cyfanswm y gostyngiadau	15	2,516	3,964	6,663	3,327	2,148	1,055	414	97	27	-	
Cyfanswm yr anheddau â gostyniad	24	3,140	7,676	17,588	10,916	9,086	6,166	2,836	555	191	-	
Cymhareb i fand "D"	5/9	6/9	7/9	8/9	1	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9	-	
Cyfateb i fand "D"	13	2,093	5,970	15,634	10,916	11,105	8,907	4,726	1,110	446	60,921	
											Addasiad cyfradd casglu (1%)	(609)
											Addasiad eiddo sydd wedi'i eithrio	16
											Sylfaen y Dreth Gyngor 2009/10	60,328

Tudalen 32

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

4. Y DRETH GYNGOR (parhad)

Y tâl sylfaenol am eiddo band D yn Sir y Fflint yn 2009/10 oedd £850.78 (£823.60 yn 2008/09).
Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion a ganlyn ar gyfer bandiau A* to I :-

Band	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9

Y praesept mwyaf arwyddocaol a godwyd fel rhan o Dreth Gyngor Sir y Fflint oedd praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, sef £11,792,917 (£11,234,101 Yn 2008/09). Cododd 34 o gymunedau cymuned/tref hefyd braeseptau gwerth £2,040,139 (£1,976,992 yn 2008/09).

Dadansoddi derbyniadau net o'r Dreth Gyngor

	2010	2009
	£000	£000
Treth Gyngor a gasglwyd	65,550	62,916
Llai - cynnydd yn y ddarpariaeth drwgddyledion	12	165
Llai - symiau a ddilewyd	(411)	(180)
	<hr/>	<hr/>
	65,151	62,901
Llai - taladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	(11,793)	(11,234)
	<hr/>	<hr/>
	53,358	51,667
	<hr/>	<hr/>

5. ARDRETHI ANNOMESTIG

Caiff y rhain eu pennu'n genedlaethol. Bydd y llywodraeth yn pennu punt dal y dreth, sef 48.9c yn 2009/10 ar gyfer pob eiddo (46.6c yn 2008/09). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi yn ei ardal, ac fe'u telir i'r gronfa Ardrethi Annomestig a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyflwynwyd gofynion cyfrifyddu diwygiedig yn sgil SORP 2009 mewn perthynas â'r trefniant hwn, gyda newidiadau cysylltiedig yn y fantolen a'r datganiad llif arian.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dosbarthu derbyniadau'r gronfa Ardrethi Annomestig i awdurdodau lleol ar sail swm penodol fesul pen. Yn 2009/19 talwyd £45,986,231 i'r gronfa Ardrethi Annomestig ar ôl gostyngiadau a darpariaethau (£50,102,605 yn 2008/09), ar sail cyfanswm gwerth trethadwy £119,609,361 ar ddiwedd y flwyddyn (£119,141,625 in 2008/09).

Dadansoddi'r cynnyrch net o ardrethi annomestig:

	2010	2009
	£000	£000
Ardrethi annomestig a gasglwyd	46,941	50,530
Llai - taliad i'r gronfa Ardrethi Annomestig	(45,986)	(50,103)
Llai - Cost casglu	(864)	(622)
Llai- Gostyngiad yn y ddarpariaeth drwgddyledion	(91)	195
	<hr/>	<hr/>
	0	0
Derbyniwyd o'r gronfa	40,437	39,371
	<hr/>	<hr/>
	40,437	39,371
	<hr/>	<hr/>

Tudalen 33

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

6. GRANTIAU GAN Y LLYWODRAETH – YN GYFFREDINOL

Grant refeniw gwerth £143,293k (£139,074k yn 2008/09) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cynnwys grant cynnal refeniw a dau grant heb eu neilltuo – y grant cytundeb gwella a'r grant amddifadedd.

	2010	2009
	£000	£000
Grant cynnal refeniw	141,572	137,352
Grant Cytundeb Gwella	1,496	1,497
Grant amddifadedd	225	225
	<u>143,293</u>	<u>139,074</u>

7. SYMUDIADAU YM MALANS CRONFA'R CYNGOR

Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn datgelu'r incwm i'w dderbyn a'r swm y bu'n rhaid ei wario i redeg y Cyngor am y flwyddyn. Mae'r gwarged neu'r diffyg a nodir yn dangos faint mwy, neu lai, na'r gwariant oedd yr incwm am y flwyddyn. Mesurir yr incwm a'r gwariant drwy ddefnyddio'r un confensiynau cyfrifyddu i bob pwrpas(h.y. UK GAAP) ag y byddai cwmni mawr (ond heb ei restru) yn ei ddefnyddio i baratoi ei ddatganiadau ariannol archwiliedig. Mae'n ofynnol yn ôl statud ac arferion anstatudol priodol (yn hytrach nag UK GAAP) i eitemau pellach o incwm a gwariant gael eu credydu neu eu codi ar Gronfa'r Cyngor a rhaid eu hystyried wrth bennu gofyniad y gyllideb ac, ei dro, bil y Dreth Gyngor. Er mai'r Cyfrif Incwm a Gwariant yw'r ffordd orau o fesur canlyniadau ariannol y Cyngor am y flwyddyn yn unol â GAAP, mae'r symudiad ar Falans y Gronfa Gyffredinol hefyd yn agwedd bwysig ar stiwardiaeth y Cyngor.

8. DARPARU AR GYFER AD-DALU BENTHYCIADAU ALLANOL

Mae Adran 22 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod neilltuo darpariaeth refeniw sylfaenol ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn honno neu unrhyw flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn honno. Dyma'r symiau a osodwyd o'r neilltuo yn 2009/10:-

	2010	2009
	£000	£000
Cyfanswm darpariaeth refeniw sylfaenol	6,251	6,203
Codwyd yn ôl ar y CRT	(591)	(610)
	<u>5,660</u>	<u>5,593</u>

9. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiedig h.y. cyrff neu unigolion y byddai'n bosibl iddynt reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor - £285k yw swm y trafodion perthnasol gydag aelodau'r Cyngor yn ystod 2009/10 (£531k yn 2008/09); cyfanswm y praeseptau a'r ardollau i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd £18,766k (£18,000k yn 2008/09); mae trafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u crynhoi yn nodiadau 5 a 6, ac yn y datganiad llif arian (a'r nodiadau). Mae gan y Cyngor fuddiannau perthnasol mewn cwmni cysylltiedig (AD Waste Limited), ac mae'r trafodion perthnasol wedi'u datgelu yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon grŵp ar dudalen 69. Mae manylion y trafodion gyda'r Gronfa Bensiynau yn nodyn 3 ar dudalennau 27 -31, ac yng nghyfrifon y Gronfa Bensiynau ar dudalennau 71 - 81.

Tudalen 34**NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD**

parhad

10. FFIOEDD ARCHWILIO

£537k oedd cyfanswm y ffioedd archwilio yn ystod y flwyddyn (£557k yn 2008/09). Darparwyd gwasanaethau archwilio allanol gan PricewaterhouseCoopers LLP a benodwyd gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru tanfis Hydref 2009. Wedi hynny, penodwyd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu'r gwasanaeth.

	2010	2009
	£000	£000
Ffioedd am y cyfrifon	216	195
Ffioedd am archwiliad	0	87
Ffioedd am perfformiad	0	130
Ffioedd am y Mesur Llywodraeth Lleol	70	0
Ffioedd am grantau	150	157
	<u>436</u>	<u>569</u>

11. TALIADAU SWYDDOGION

Yn ôl Rheoliad 7A o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 mae'n ofynnol datgelu (fesul bandiau o £5,000) nifer y gweithwyr a gafodd dâl – sef yr holl symiau a dalwyd neu sy'n ddyledus iddynt, lwfansau treuliau trethadwy, a gwerth ariannol unrhyw fuddion – gwerth dros £60,000 :-

Band cyflog	2010		2009	
	Heb fod mewn ysgol	Ysgolion	Heb fod mewn ysgol	Ysgolion
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer.
£60,000 - £64,999	3	4	9	9
£65,000 - £69,999	10	5	0	5
£70,000 - £74,999	4	4	0	2
£75,000 - £79,999	1	1	0	0
£80,000 - £84,999	4	0	2	1
£85,000 - £89,999	2	2	3	1
£90,000 - £94,999	2	0	0	0
£95,000 - £99,999	0	0	0	0
£100,000 - £104,999	0	0	0	0
£105,000 - £109,999	0	0	0	0
£110,000 - £114,999	1	0	0	0
£115,000 - £119,999	0	0	0	0
£120,000 - £124,999	1	0	1	0
£125,000 - £129,999	0	0	0	0
£130,000 - £134,999	0	0	0	0
£135,000 - £139,999	1	0	0	0
£140,000 - £144,999	0	0	0	0
£145,000 - £149,999	0	0	1	0
	<u>29</u>	<u>16</u>	<u>16</u>	<u>18</u>

Mae'r wybodaeth (gan gynnwys ffigurau cymharol 2008/09) wedi'u casglu ar sail gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio newydd, a Bwletin 85 Panel Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol; mae rhifau 2009/10 yn cynnwys nifer y gweithwyr nad ydynt yn barhaol (staff dros dro/ymgyngorwyr), ac mae'r holl swyddi nad ydynt yn swyddi mewn ysgolion, yn cynnwys swyddi'r uwch swyddogion a restrir ar dudalen 35. Nid yw gwerthoedd y bandiau'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, a gyfrifiwyd (yn 2008/09 a 2009/10) ar gyfradd o 14.1% i athrawon a 22.3% i weithwyr eraill.

Tudalen 35

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

11. TALIADAU SWYDDOGION (parhad)

Tâl uwch-swyddogion (cyflogau rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn) –

Yn ôl Rheoliad 7A o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 mae'n ofynnol datgelu manylion tâl uwch-swyddogion unigol. At y diben hwn, yr uwch-swyddogion yw'r prif weithredwr, y cyfarwyddwyr strategol a'r prif swyddogion statudol.

Teitl y swydd	Note	Tâl pensiynadwy £	Lwfansau treuliau £	Cyfanswm y tâl ac eithrio cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £	Cyfanswm y tâl gan gynnwys cyfraniadau £
2009/10						
Prif Weithredwr	1	136,855	160	137,015	30,519	167,534
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol		89,132	160	89,292	19,876	109,168
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd		93,742	0	93,742	20,904	114,646
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes		93,742	0	93,742	20,904	114,646
Pennaeth Cyllid		81,960	160	82,120	18,277	100,397
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	2	83,049	0	83,049	18,520	101,569
		578,480	480	578,960	129,000	707,960
2008/09 (hysbysrwydd cymharol)						
Prif Weithredwr	1	145,216	120	145,336	32,383	177,719
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol		89,031	120	89,151	19,854	109,005
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd	3	44,884	0	44,884	10,009	54,893
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes	4	46,617	0	46,617	10,395	57,012
Pennaeth Cyllid		82,976	120	83,096	18,504	101,600
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	2	83,976	0	83,976	18,727	102,703
		492,700	360	493,060	109,872	602,932

Nodyn 1 : Mae tâl pensiynadwy'n cynnwys tâl yn ymwneud ag (a) swyddog canlyniadau mewn etholiadau cenedlaethol (mae'r llywodraeth berthnasol yn ad-dalu'r gost), a (b) clerwr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (mae'r corff hwnnw'n ad-dalu'r gost).

Nodyn 2 : Mae tâl pensiynadwy'n cynnwys y tâl yn ymwneud â'r rôl fel Dirprwy Clerwr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (mae'r Awdurdod yn ad-dalu'r costau)

Nodyn 3 a 4 : Dechreuodd y ddau ar 29 Medi 2008 a 22 Medi 2008, yn ôl eu trefn, ar gyflog blynyddol o £89,132.

Nid yw'r trefniadau dros/dro cyn llenwi'r swyddi wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

12. GWASANAETHAU GAN ASIANTAETHAU

Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o chwe phartner yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (ACGC). Y partneriaid eraill yw Cyngorau Môn, Conwy, Dinbych, Gwynedd a Wrecsam. Mae Cyfarwyddiaeth Amgylchedd ac Adfywio Cyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â gwaith ar y cefnffyrdd ar ran yr Asiantaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Tudalen 36

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

parhad

12. GWASANAETHAU GAN ASIANTAETHAU (parhad)

Cafwyd ad-daliadau gwerth £1,901k am waith a wnaed gan Gytundeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn (£2,549k in 2008/09), a oedd yn cynnwys lwfans gweinyddu, a chyllid uniongyrchol i Uned Ymchwiliadau Technegol y gyfarwyddiaeth, a leolir yn swyddfa ranbarth yr asiantaeth yn Llanelwy.

Mae incwm a gwariant yn ymwneud â Chytundeb yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ei gynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant net cyfanswm cost y gwasanaethau, gan gynnwys gwarged o £135k o'r Uned Ymchwiliadau Technegol (£117k in 2008/09).

13. PRYDLESU

Rhent deiliaid prydles

Yn 2009/10, £2,041k oedd y taliadau rhent prydlesi gweithredol (£2,065k in 2008/09). Nid oedd unrhyw daliadau rhent prydlesi cyllid.

	2010	2009
Dosbarthu asedau	£000	£000
